Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Holiadur cyn-arolygiad: arolwg staff

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn am eich ysgol fel aelod o staff. Darllenwch bob datganiad gan ystyried eich profiadau eich hun a thiciwch y blwch sy'n gweddu orau i'ch barn chi. Ar gyfer rhai cwestiynau, cewch gyfle i egluro pam eich bod wedi dewis yr ateb hwnnw, os ydych chi eisiau.

Mae eich barn yn bwysig i ni. Mae eich atebion chi ac atebion eraill yn helpu i lywio'r arolygiad. Lle y bo'n briodol, gallwn hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o arolygon i'n helpu i ffurfio darlun cenedlaethol o waith ysgolion ledled Cymru.

**Mae'r arolwg yn ddienw.** Mae eich ymatebion yn gyfrinachol ac nid ydym yn gofyn am eich enw.

- Bydd arolygwyr Estyn yn darllen eich atebion.
- Ni fydd arolygwyr Estyn yn datgelu eich ymatebion unigol i'r ysgol nac i neb y tu allan i Estyn.

Yr unig amser y gallem rannu gwybodaeth â phobl eraill yw os oes gennym bryderon am ddiogelwch dysgwyr.

**1. Lefel / rôl reoli (gadewch yn wag os ydych chi'n poeni y byddai hyn yn datgelu pwy ydych chi)**

- ☐ Uwch arweinydd
- ☐ Arweinydd canol
- ☐ Athro
- ☐ Staff cymorth - addysgu
- ☐ Staff cymorth - eraill
- ☐ Arall

**2. Rwy'n gwbl ymwybodol o weithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion ac yn deall sut i'w gweithredu**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

**3. Credaf fod disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol hon**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

Os ydych wedi dweud eich bod yn credu nad yw disgyblion efallai yn ddiogel yn yr ysgol hon. A allwch chi ddweud wrthym pam? (Sylwch, os ydych yn dymuno gwneud datgeliad, rhaid i chi gysylltu ag arweinydd diogelu pwrpasol eich ysgol, neu swyddog dynodedig yr awdurdod lleol o fewn gwasanaethau plant gan nad oes gan Estyn unrhyw bwerau i ymchwilio i ddigwyddiadau penodol)

**4. Mae polisïau ysgol a dysgu proffesiynol yn fy nghefnogi'n dda wrth ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau o ymddygiad gwael**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

(rhowch enghreifftiau lle bo hynny'n briodol)

**5. Mae'r ysgol yn sicrhau fy mod yn gallu cael mynediad i gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

(rhowch enghreifftiau lle bo hynny'n briodol)

**6. Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd priodol i staff gydweithio ag eraill i ddatblygu'r cwricwlwm ac addysgu yn yr ysgol**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn berthnasol i'm rôl

(rhowch enghreifftiau lle bo hynny'n briodol)

**7. Mae arweinwyr yn ymddiried yn y staff i arloesi mewn ffyrdd sy'n ateb anghenion disgyblion**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn berthnasol i'm rôl

(rhowch enghreifftiau lle bo hynny'n briodol)

**8. Credaf fod yr ysgol hon yn cael ei harwain a'i rheoli'n dda (nodwch fod hyn yn cynnwys arweinyddiaeth ar bob lefel)**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno

Defnyddiwch y gofod hwn os hoffech chi ddweud mwy wrthym

**9. Mae arweinwyr yn ystyried fy llwyth gwaith a'm lles wrth ddatblygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau, ac yn osgoi rhoi beichiau diangen ar staff**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno

**10. Os byddaf yn profi problemau yn yr ysgol, gallaf siarad ag arweinwyr amdanynt a derbyn cefnogaeth briodol**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno

**11. Rwy'n teimlo fy mod yn cyfrannu'n ystyrlon at brosesau hunanwerthuso'r ysgol**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno

**12. Rwy'n deall fy rôl wrth gyflawni blaenoriaethau gwella strategol yr ysgol.**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno

**13. Defnyddiwch y gofod isod os hoffech chi ddweud unrhyw beth arall am yr ysgol**

**Os oes gennych unrhyw bryderon diogelu, anfonwch e-bost atom ar diogelu@estyn.gov.wales neu ffoniwch ni ar 02920 446446**

**Bydd eich atebion yn cael eu storio'n ddiogel ar ein cronfeydd data yn unol â'n polisi cadw data. I gael gwybodaeth am sut rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, cyfeiriwch at ein hysbysiad preifatrwydd: Datganiad preifatrwydd | Estyn (llyw.cymru)**